Yr Ymarfer CAP, i'r Saesneg ac i'r Gymraeg

Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Gwybodaeth gyffredinol

Cyflwyniad

Pwrpas yr Ymarfer CAP yw rhoi cyfle i chi gyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon ag a geir yn y Prawf CAP perthnasol a chael sylwadau ysgrifenedig ar eich cyfieithu gan diwtor sydd yn gyfieithydd ar y pryd profiadol ac yn un o blith aseswyr Prawf CAP y Gymdeithas.

Cynigir yr Ymarfer CAP yn y ddau gyfeiriad, i'r Saesneg ac i'r Gymraeg.

Cynhelir yr Ymarfer CAP o bell trwy Zoom, gyda'r ochr dechnegol dan reolaeth CTV Sound Studios, Caerdydd. Golyga hyn y cewch gyfle i ymgyfarwyddo ag amgylchiadau a threfniadau'r Prawf CAP ei hun.

Rydym yn annog ac yn cynghori cyfieithwyr ar y pryd sydd am sefyll y Prawf CAP i fanteisio ar y cyfle hwn yn gyntaf. Er y bydd gan gyfieithwyr ar y pryd brofiad o gyfieithu ar y pryd trwy Zoom ac mewn sefyllfa fyw, mae amgylchiadau'r Prawf CAP yn wahanol i'r rhain.

Dyddiad yr Ymarfer CAP

Cynhelir yr Ymarfer CAP **ddydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021.**
Y dyddiad olaf i gofrestru fydd 12 Tachwedd 2021, cyn 12pm.

- Ni fyddwn yn cofrestru mwy nag 8 cyfieithydd ar y pryd ym mhob Ymarfer CAP. Fe'ch anogwn, felly, i gofrestru a thalu cyn gynted ag y gallwch, a pheidio â'i gadael hi tan y funud olaf, gan mai'r cyntaf i'r felin fydd hi wrth neilltuo llefydd yn yr Ymarfer CAP.

Bwriedir gosod darnau gwahanol ym mhob Ymarfer CAP, felly, gallwch gofrestru ar gyfer mwy nag un.

Trefn yr Ymarfer CAP

Neilltuir hyd at 45 munud ar gyfer yr Ymarfer CAP. Byddwch yn cyfieithu dau ddarn o ryw 10 munud yr un. Caiff eich ymgais ei recordio, fel yn y Prawf CAP.

Bydd gofyn i chi neilltuo ychydig o amser i ddarllen gwybodaeth am y darnau y bydd gofyn i chi eu cyfieithu. Er gwybodaeth a hwylustod, neilltuir 15 munud ar gyfer hyn yn y Prawf CAP.

Gofynion yr Ymarfer CAP

Bydd trefniadau technegol yr Ymarfer CAP o dan reolaeth CTV Sound Studios, Caerdydd. Bydd peiriannydd sain proffesiynol yn gyfrifol am ddarlledu'r darnau prawf ar Zoom ac am recordio eich cyfieithiad.

Bydd rhaid i bob ymgeisydd fodloni'r gofynion technegol a ganlyn:
- camera ar y cyfrifiadur;
- penset a meicroffon (ar wahân neu'n rhan o'r un teclyn);
- cebl 'ethernet';
- cyflymder cysylltedd â'r we o dros 20mb i lawrlwytho a 10mb i uwchlwytho.

Bydd gofyn i chi hefyd sicrhau eich bod mewn ystafell dawel lle na fydd neb yn tarfu arnoch yn ystod yr Ymarfer CAP.

Y deilliannau dysgu

Wedi gwneud yr Ymarfer CAP:

- bydd gennych well syniad am amgylchiadau a gofynion Prawf CAP y Gymdeithas, sy'n wahanol i amodau arferol cyfieithu ar y pryd.

- byddwch wedi cael sylwadau ysgrifenedig ar eich cyfieithu ar y pryd gan gyfieithydd proffesiynol annibynnol a phrofiadol, sydd hefyd yn aelod o Gofrestr Aseswyr Prawf CAP y Gymdeithas.

- cewch gyfle i wrando arnoch chi'ch hun yn cyfieithu ar y pryd, peth prin wrth arfer y grefft, ac elfen werthfawr o'r hyfforddiant. (Cewch gopi o'r recordiad gyda'ch sylwadau).

- bydd gennych well syniad o'ch cryfderau a'ch gwendidau fel cyfieithydd ar y pryd, ac wedi cael arweiniad i'r elfennau ar y grefft y gallwch eu gwella.

- gallwch benderfynu a ydych chi'n barod i sefyll Prawf CAP y Gymdeithas.

Cofiwch mai diben y Prawf CAP yw asesu gallu'r ymgeisydd i gyfieithu ar y pryd yn rhugl a llyfn, a chyfleu neges y gwreiddiol yn gywir.

Cofrestru a thalu .../

Cofrestru

Rhaid i bob unigolyn lenwi'r ffurflen gofrestru cyn y caiff wneud yr Ymarfer CAP. Rhaid anfon ffurflen gofrestru ar wahân ar gyfer pob dysgwr. Dylid e-bostio'r ffurflen gofrestru i gweithdy@cyfieithwyr.cymru ar ffurf 'Word' yn unig (ac nid ar ffurf 'pdf' nac unrhyw fformat arall).

Talu

Bydd y taliadau am un Ymarfer CAP* yn:

- £120.00 i aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau Cydnabyddedig a Chyswllt, a'r Myfyrwyr Cyswllt.

- £140.00 i bawb arall.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

* Bydd gwneud Ymarfer CAP i'r Saesneg ac Ymarfer CAP i'r Gymraeg ar yr un diwrnod yn cyfrif fel gwneud dau Ymarfer CAP, a'r ffioedd fydd £240/£280.

Unigolion: rhaid i chi dalu wrth gofrestru. Ni fyddwn yn cofrestru neb ar gyfer yr Ymarfer CAP oni chawn y tâl ar yr un pryd â'r ffurflen gofrestru. Gwell gennym daliad electronig.

Sefydliadau cyhoeddus: peidiwch â disgwyl i gael rhif archeb swyddogol cyn anfon y ffurflen gofrestru atom. Gall yr archeb swyddogol ddilyn. Cofrestru sydd bwysicaf.

Cydnabod derbyn y ffurflen gofrestru

Bydd y Gymdeithas yn cydnabod derbyn pob ffurflen gofrestru, yn ogystal â'r taliad/rhif archeb, drwy e-bost o fewn tri diwrnod gwaith iddi ein cyrraedd ni.

Tynnu'n ôl neu ganslo

Os bydd dysgwr yn tynnu'n ôl, mae'n rhaid iddo yrru e-bost at gweithdy@cyfieithwyr.cymru i roi gwybod i ni. Y telerau wrth wneud hyn fydd:

- 7 diwrnod neu ragor cyn dyddiad cau'r Ymarfer CAP, ad-delir 75% o'r ffi.
- 3-6 diwrnod cyn dyddiad cau'r Ymarfer CAP, ad-delir 50% o'r ffi.
- 1-2 diwrnod cyn dyddiad cau'r Ymarfer CAP, neu wedi hynny, dim ad-daliad.

Os mai Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fydd yn canslo, cewch ad-daliad llawn.

Diwrnod y Prawf CAP – dydd Mawrth, 8 Chwefror 2022

Cynhelir y Prawf CAP i'r Saesneg a'r Prawf CAP i'r Gymraeg o bell trwy Zoom, gyda'r ochr dechnegol dan reolaeth CTV Sound Studios, Caerdydd.

Bydd y cyfnod cofrestru yn agor ar 4 Ionawr 2022 ac yn cau ar 20 Ionawr 2022.